

## Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Beryl Williams (Llansannan) a'r plant, a Delyth Williams (Llansannan) a'r brodyr a'r chwirydd eraill, a gweddill y teulu ym marwolaeth Trefor Williams ddiwedd yr wythnos hon. Gweddiwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu hangen.
- Parhawn i gofio am Elwy Owen (Llanefydd) yn Ysbyty Broadgreen a Glyn Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Glan Clwyd. Anfonwn ein cofion hefyd at Bet Pierce (Llanfair) sydd heb fod yn dda ei hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn y tri ohonynt, a phawb arall sydd angen ein gweddïau, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn adnabod Ei ofal a'i heddwch yn eu hangen. Cofiwn am eu teuluoedd hefyd, a diolchwn am eu gofal a'u hymroddiad.
- Llongyfarchiadau i Helen a Rhys Edmunds (Nantglyn) ar enedigaeth mab bach, Twm Morus. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.
- Llongyfarchiadau hefyd i Glyn Davies (Saron) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig!

## I ddod

- **New Word Alive** ym mharc gwyliau Prestatyn Sands, Prestatyn LL19 7LA Ebrill 2il – 7fed ac Ebrill 7fed- 12fed. Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: [www.newwordalive.org](http://www.newwordalive.org)
- Bydd yr ail gyfarfod i drefnu **Pabell yr Eglwys yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych** dan ofal Cytun yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog Ebrill 18fed am 6.00. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb.
- **Sasiwn Chwirydd y Gogledd** yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, dydd Mawrth, Mai 7fed.
- **Darlith ar Thomas Jones, Dinbych ac achos yr Efengyl yn yr ardal** nos Iau Dyrchafael, Mai 9fed yn Festri Llansannan am 7.30 gydag Andras Iago yn darlithio.
- Taith Haf 2013 y mudiad Care for the Family – **“Getting your kids through church without them ending up hating God”** yng nghwmni Rob Parsons yn Eglwys Sure Hope, Bae Colwyn nos Fawrth, Mehefin 4ydd am 7.30. Tocynnau £5.
- **Diwrnod Genod** yng Ngholeg y Bala, Mehefin 14eg–15fed. Nos Wener: Cath Woolridge & SOW – noson o gerddoriaeth, tystiolaeth a chymdeithas. Dydd Sadwrn: Diwrnod i ymlacio, mwynhau cymdeithas ac i ddysgu am yr Iesu yng nghwmni Sarah Morris. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: [colegybala@ebcpw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpw.org.uk) / 01678 520565.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 31<sup>ain</sup> Mawrth 2013

Darlleniad y Dydd

Ioan 20:11–16

(BCND tud.126 / BCN: tud.116)

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Wythnos go ryfedd ydi hi wedi bod – y lluwchfeydd eira wedi achosi anhrefn ac anhwylostod mawr. Teimlad chwithig iawn oedd gohirio oedfaon y Sul ond dyna oedd ddoethaf y Sul diwethaf. Mae'r eira a'r rhew wedi gwneud bywyd yn anodd iawn ar hyd yr wythnos a chofiw'n am y rhai sydd wedi gorfod wynebu colledion a blinder corff ac ysbryd yn y tywydd garw. Fe ddaw'r gwanwyn a'i wres cyn hir yn siŵr!

Mae hi'n fyd gwahanol iawn ar y glannau. Go brin fod y rhai sy'n byw yno yn gallu credu sut mae hi i fyny 'ma ac mae'n anodd i ninnau gredu nad oes dim eira o gwbl i lawr 'na! Dau fyd gwahanol!

Tybed beth fyddai'n perswadio pobl y glannau ei bod hi mor aeafol i fyny 'ma – gweld lluniau, gweld eira ar ben car, credu gair rhywun o'r wlad, gweld y newyddion ar y teledu?

Pan glywodd pobl am y tro cyntaf fod Iesu wedi atgyfodi, beth ddaru eu perswadio nhw fod hyn yn wir? Yn syml, gweld (yn achos rhai), ond clywed a chredu yn achos y mwyafrif ar hyd y canrifoedd. Derbyn yr Ysbryd Glân a chredu heb weld ydi un o nodweddion gwynfyd y Cristion (Ioan 20:29). Digwyddiad i'w gredu ydi'r atgyfodiad. Ffydd sy'n seiliedig ar atgyfodiad Crist yw'r unig ffydd sydd o werth oherwydd gyda'r ffydd yma cawn ein huno â Christ yn ei fywyd ac fe gawn weld ei ogoniant!

Un o'r pethau trawiadol am yr hyn a ddigwyddodd rhwng Mair a Iesu ar fore dydd yr atgyfodiad yw nad oedd Mair wedi adnabod Iesu yn yr ardd hyd nes iddi glywed Iesu hi yn ei galw yn ôl ei henw “Mair!” Roedd Mair yn adnabod Iesu ers blynnyddoedd ac ychydig ddyddiau yn unig cyn hyn roedd wedi bod wrth groes Iesu mewn galar. A oedd Iesu wedi newid cymaint â hynny fel nad oedd Mair yn gallu ei adnabod ar ôl cwta dridiau? Yn sicr mae yna ogoniant rhyfeddol, newydd yn perthyn i Iesu ar ddydd ei atgyfodiad!

Wrth ddathlu'r Pasg hefo'n gilydd heddiw ac wrth edrych ymlaen at Llanw 13 gweddiwn am y ddau beth yma – ein bod yn cael gweld Iesu trwy ffydd yn llawnder gogoniant ei Berson a atgyfodwyd.

Yna hefyd ein bod yn cael ei glywed yn ein galw ninnau wrth ein henwau priod. Cael clywed, fel y gwnaeth Mair, ein Harglwydd byw yn galw ein henw mewn cariad a'i lais yn symud pob amheuaeth ac ofn a dryswch. Yn llawnder ei awdurdod fel Arglwydd, fe all heddiw – am ei fod yn fyw – agor pob bedd a symud pob rhwystr o'i flaen.

Croeso i chwi oll i oedfaon y dydd. “Hwn ydi'r dydd y cododd Crist gan ddryllio pyrth y bedd!”(CFF 543)

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Andras Iago, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun–Gwener • **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng Ebrill 1af–5ed. Mae croeso i bawb - plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Cewch fwy o fanylion ar y wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org).
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 ac fe fydd yr eglwys yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Bydd Cyfarfod Gweddi hefyd yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac Ysgol Sul am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd oedfa deuluol yng Nghefn Berain am 10.00. Yn Llanefydd, bydd Gwasanaeth Teuluol y Pasg am 10.00 ac oedfa arbennig dan ofal yr ieuencid a Nia Williams, Pwllheli am 6.00. Bydd cyfle i brynu nwyddau Masnach Deg ar ôl gwasanaeth y bore a'r hwyr.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd y Parch. R W Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Rhag-hysbys Ar Ebrill 14eg, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i oedfa'r bore yn Llanefydd i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd.

### \*\*Arian Sasiwn y Chwiorydd\*\*

Bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd **erbyn diwedd mis Mawrth**, os gwelwch yn dda.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu  
Aneurin – 📧 [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau